Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 17 Chwefror 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Dave Snape,
Y Cynghorydd Sir Emrys Wynne a dau aelod o'r cyhoedd.

190. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jabez Oakes and Ifan Wyn.

191. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

192. ADRODDIAD Y MAER

Roedd y Maer wedi bod yn y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a ganlyn.

05.12 Cyfarfod gyda Ruth Astbury
Noson dathlu'r Nadolig Cymdeithas Ddinesig Rhuthun yn yr Hen Lys
07.12 Ffair Aeaf CFAC Clwyd 2020 yn Ocsiwn Rhuthun
09.12 Cyfarfod trafod diffygion yn yr Hen Lys
10.12 Cyfarfod Dementia Ymwybodol a drefnwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
12.12 Bore Coffi Nadolig Ysbyty Rhuthun
Cyngerdd Carolau Ysgol Fonedd Rhuthun yn Eglwys Sant Pedr
14.12 Cyfarfod gyda Kate Harcus a Ruth Astbury i drafod Felodrom Gogledd Cymru
18.12 Cyfarfod ynghylch Felodrom Gogledd Cymru
22.12 Gwasanaeth Naw Llith a Charolau yn Eglwys Sant Pedr
23.12 Gwasanaeth Carolau Capel y Tabernacl
24.12 Ymweliadau â naw lleoliad gofal ac Ysbyty Rhuthun i rannu Cysuron Nadolig y Maer
06.01 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
07.01 Cyfarfod gyda Kate Harcus a Fiona Gale ynghylch arddangosfa treftadaeth yr Hen Lys
09.01 Cyfarfod yngylch Felodrom Gogledd Cymru
14.01 Cyfarfod gyda Ruth Astbury a Llyr Williams ynghylch Felodrom Gogledd Cymru
20.01 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
03.02 Cyfarfod gyda Cadwyn Clwyd
Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
07.02 Achos llys ffug yn yr Hen Lys
11.02 Cyfarfod Dementia Ymwybodol

193. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Digwyddiad yr Arolygiaeth Cynllunio a Chymorth Cynllunio Cymru (adroddiad ynghlwm), cyfarfod Croeso i Sir Ddinbych Gynaliadwy yn yr Hen Lys, noson Caws a Gwin Gŵyl Rhuthun yn yr Hen Lys, digwyddiad Drysau Agored Rhuthun a Dinbych yn yr Hen Lys, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Deall Dementia yn yr Hen Lys, a chyfarfod Pwyllgor Rheoli
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd

Cyng. Stephen Beach	
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a noson Caws a Gwin Gŵyl Rhuthun yn yr Hen Lys
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Oriau lawer yn paratoi'r hamperi ar gyfer y Banc Bwyd, noson Caws a Gwin Gŵyl Rhuthun yn yr Hen Lys a chyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 Sesiwn Banc Bwyd, noson Caws a Gwin Gŵyl Rhuthun yn yr Hen Lys, cyfarfod Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Ddinbych , cyfarfod Neuadd y Sir a Neuadd y Dref i drafod cartref newydd i'r Banc Bwyd a chyfarfod gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i drafod cartref newydd i'r Banc Bwyd
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod Ymlaen Rhuthun a chyfarfod Drysau Agored Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol
Cyng. Ifan Wyn	

194. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Esboniodd y Cynghorydd Emrys Wynne ei fod wedi anfon adroddiad ysgrifenedig ar ran y tri Chynghorydd Sir sy'n cynrychioli ward Rhuthun at y Clerc y noson honno. Mynegodd ei werthfawrogiad i staff Cyngor Sir Ddinbych am eu gwaith caled mewn ymateb i'r stormydd a achosodd broblemau llifogydd, ac ategwyd hyn gan y Cynghorwyr Tref.

195. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020 yn gywir.*

196. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

197. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020 ac a wnaeth ailymgynnull ar 20 Ionawr 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020 ac a wnaeth ailymgynnull ar 20 Ionawr 2020.*

198. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.*

199. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.*

200. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Adroddodd y Maer y cynhaliwyd digwyddiadau prawf ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Disgwylir dyfynbrisiau gan seiri coed lleol i gwblhau'r gwaith adnewyddu. Dywedodd y byddai angen i'r gweithgor newid i fod yn bwyllgor rheoli, i gadw llygad ar gynnal yr Hen Lys fel lleoliad i'w logi. Trafododd yr aelodau'r ffioedd llogi arfaethedig, ac esboniwyd na fwriadwyd i'r gwagle gael ei ddefnyddio i'w logi yn ystod y dydd yn rheolaidd, a bod y prif bwyslais ar logi'r adeilad gyda'r nos.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

201. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU

Esboniodd y Maer bod Cadwyn Clwyd wedi sicrhau grant gwerth £7,000 tuag at gynnal astudiaeth ddichonoldeb, sef y cam nesaf yn y broses. Gofynnwyd am gyfraniad o £3,333.00 gan Gyngor Tref Rhuthun i fwrw ymlaen gyda phenodi ymgynghorwyr i gyflawni'r astudiaeth ddichonoldeb. Esboniodd, petai'r astudiaeth yn cadarnhau bod y cynnig yn ddichonadwy, yna byddai'n ofynnol cael pwyllgor, yn cynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad a chymeradwyo'r cyfraniad o £3,333.00 i Gadwyn Clwyd tuag at yr astudiaeth ddichonoldeb.*

202. WYTHNOS DYFODOL RHUTHUN 2020

Amlinellodd y Maer y gwahanol ddigwyddiadau a drefnwyd fel rhan o Wythnos Dyfodol Rhuthun 2020, gyda'r holl fanylion ar-lein. Cyfeiriodd hefyd at y cynnig i ddiweddaru'r adroddiad Dyfodol Rhuthun gydag adran benodol ar Chwaraeon a Hamdden. Roedd Matthew Jones o CoombsJones, a gynhyrchodd yr adroddiad gwreiddiol a'r adroddiad atodol, yn barod i ymgymryd â hyn ar gost o £650.00. Roedd yr holl aelodau o blaid hyn.

***PENDERFYNWYD:** nodi digwyddiadau Wythnos Dyfodol Rhuthun a chymeradwyo comisiynu cwmni CoombsJones i gynhyrchu pennod ar Chwaraeon a Hamdden ar gyfer cynllun bro Dyfodol Rhuthun, i'w dderbyn ymhen deufis, ar gost o £650.00.*

203. SEDD WAG Y CYNGOR TREF

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd cais gan etholwyr Rhuthun i gynnal etholiad i ethol aelod newydd i'r sedd wag. Cytunodd yr aelodau y dylid llenwi'r sedd trwy gyfethol, a gofynnwyd i'r Clerc gyhoeddi'r hysbysiad angenrheidiol. Byddai mynegiadau o ddiddordeb yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD:** llenwi'r sedd wag trwy gyfethol a chyhoeddi'r hysbysiad cyfethol.*

204. CYNRYCHIOLWYR CYNGOR TREF RHUTHUN AR GYRFF ALLANOL

Hysbyswyd yr aelodau bod y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o Gorff Llywodraethu Ysgol Stryd y Rhos. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i Gorff Llywodraethu'r ysgol. Dywedodd y Cynghorydd Stephen Beach ei fod yn fodlon dychwelyd i'r Corff Llywodraethu fel cynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun. Yn dilyn ei ymddiswyddiad fel aelod o'r Cyngor Tref ni allai'r Cynghorydd Emrys Wynne fod yn gynrychiolydd y Cyngor Tref ar Gorff Llywodraethu Ysgol Borthyn mwyach. Mynegodd y Cynghorydd John Wynne Hughes ddiddordeb mewn cynrychioli'r Cyngor Tref a derbyniodd yr aelodau ei gynnig. Hefyd gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych am enwebiad i ystyried Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD**: hysbysu Ysgol Stryd y Rhos yr enwebwyd y Cynghorydd Stephen Beach fel cynrychiolydd y Cyngor Tref yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson o'r corff llywodraethu a hysbysu Ysgol Borthyn yr enwebwyd y Cynghorydd John Wynne Hughes fel cynrychiolydd y Cyngor Tref yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Emrys Wynne o'r Cyngor*

Tref. Penderfynodd yr aelodau adael y cais gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar y bwrdd.

205. SIARTER RHWNG CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED SIR DDINBYCH A CHYNGOR SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu cynnwys y Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych am ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 27 Mawrth 2020. Cynigiodd y Cynghorydd Stephen Beach fod hyn yn cael ei ystyried yn fanwl gan y Grŵp Craffu ar Ddogfennau, a chytunodd yr aelodau gyda hyn.

PENDERFYNWYD*: cyfeirio adolygu'r Siarter i'r Grŵp Craffu ar ddogfennau a threfnu cyfarfod cyn y dyddiad cau ar gyfer adborth, sef 27 Mawrth 2020.*

206. ADOLYGU A DIWEDDARU RHEOLAU SEFYDLOG CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu a diweddaru Rheolau Sefydlog Cyngor Tref Rhuthun i adlewyrchu'r newid ym man cyfarfod y Cyngor Tref a'r ddogfen Rheoliadau Ariannol.

PENDERFYNWYD*: newid man cyfarfod y Cyngor Tref i'r Hen Lys, datgan y byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ddyddiadau a gytunwyd gan y Cyngor Tref, a gwneud diwygiadau fel bod y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn cyfateb i'w gilydd.*

207. ENWAU PARTH CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhagor o wybodaeth ynghylch caffael y parthau .cymru / .wales ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun. Adroddodd y Cynghorydd Dave Snape fod yr enwau parth a ddymunid ar gael ar gost o £325.00 + TAW, y byddai angen ei dalu gyda cherdyn credyd. Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Snape am ei waith ymchwil a'i ganfyddiadau.

PENDERFYNWYD*: bwrw ymlaen gyda phrynu'r enwau parth a ddymunir ar gost o £325.00 + TAW.*

208. GRŴP DINESYDD DA

Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp gytuno ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod. Gofynnodd yr aelodau i'r Clerc awgrymu dyddiad addas.

PENDERFYNWYD*: anfon neges yn nodi dyddiad ar gyfer cyfarfod i'r aelodau.*

209. YMGYRCH TACLUSO'R DREF 2020

Cytunodd yr aelodau eu bod yn dymuno cynnal y digwyddiad hwn unwaith eto eleni. Roedd Cadwch Gymru'n Daclus wedi awgrymu tri dyddiad. Gofynnwyd i'r Clerc anfon y dyddiadau at yr aelodau.

PENDERFYNWYD*: dosbarthu'r dyddiadau a awgrymwyd i'r aelodau.*

210. CAIS SYMIAU CYMUDOL AR GYFER RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried eu hymateb i'r cais gan Gymdeithas Trigolion Parc Seren am y symiau cymudol sydd ar gael ar gyfer Rhuthun, tuag at ddiweddaru maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i ddyfarnu'r symiau sydd ar gael i'r Gymdeithas Trigolion. Gofynnwyd am anfon llythyr at y Gymdeithas yn nodi y byddai'r adroddiad archwiliad diogelwch yn cael ei dalu amdano gan y Cyngor Tref eleni, a bod yr yswiriant wedi'i adnewyddu, ond byddai hyn yn dod yn gyfrifoldeb y Gymdeithas unwaith y bo cytundeb les yn bodoli.

PENDERFYNWYD*: darparu adborth i Swyddog Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych nad oedd gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad ynghylch cais Cymdeithas Trigolion Parc Seren am symiau cymudol Rhuthun tuag at uwchraddio maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa ac anfon llythyr yn dynodi bwriadau'r Cyngor Tref unwaith y bo'r cytundeb les wedi'i lofnodi.*

211. DATHLIADAU DIWRNOD BUDDUGOLIAETH YN EWROP 75

Ystyriodd yr aelodau gais am wybodaeth ynghylch unrhyw ddigwyddiadau/gwasanaethau i ddathlu 75 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, 8 – 10 Mai 2020. Nid oedd yr aelodau'n ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau/gwasanaethau'n cael eu trefnu yn Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: ateb gan nodi nad oedd yr aelodau'n ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau/gwasanaethau'n cael eu trefnu yn Rhuthun.*

212. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol o £750.00 gan Glwb Rotari Rhuthun tuag at y digwyddiad Rasus Mulod i'w gynnal ar 5 Medi 2020.
PENDERFYNWYD*: gwrthod y cais am gymorth ariannol.*

213. CAIS AM GYFRANIAD

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Clwyd CAFC 2020 am gyfraniad tuag at ymdrechion codi arian sir Clwyd fel Sir Nawdd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni. Cynigiwyd ac eiliwyd gwneud cyfraniad o £100.00 tuag at yr ymdrechion codi arian.
PENDERFYNWYD*: rhoi cyfraniad o £100.00 i Clwyd CAFC 2020.*

214. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol, a oedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu cymryd meddiant a defnyddio'r Hen Lys a phenodi Rheolwr yr Hen Lys.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r Asesiad Risg ar gyfer 2019-20.*

215. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2019-20.*

216. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2020.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2020.*

217. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100276	Zurich Municipal	Tâl adnewyddu'r polisi yswiriant ar gyfer 2020-21		£4,038.65
100277	HCI Data Ltd	Adnewyddu'r enwau parth cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk am ddwy flynedd	*	£172.80
100278	Cambrian Woodland Services	Cyflenwi, gosod, tynnu ymaith a gwaredu'r goeden Nadolig	*	£584.40
100279	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig a'u tynnu ymaith – ymweliadau 1 a 4	*	£1,308.00
100280	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig a'u tynnu ymaith – ymweliadau	*	£1,100.83

		2 a 3		
100281	Cyng. Heather Williams	Costau teithio am fynd i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Rhyl a digwyddiad yr Arolygiaeth Cynllunio yn Llandudno		£47.80
100282	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifyddu a chyflogres – Chwefror 2020	*	£84.00
100283	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£701.62
100284	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Chwefror 2020	*	£180.00
O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys				
100027	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu'r bleinds ar gyfer yr Hen Lys	*	£597.67
100028	Oakwood Property	Gwaith ychwanegol cytunedig, llai ffi cadw	*	£2,169.88
100029	Scottish Power	Costau trydan yn yr Hen Lys, 18.01.19 – 13.12.19		£875.21
100030	Ruthin Décor Ltd	Paent ar gyfer yr Hen Lys	*	£39.95
100031	Richard Williams Ltd	Pren ac eitemau cysylltiedig ar gyfer yr Hen Lys	*	£216.00

218. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 16 Mawrth 2020 am 7pm yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun.*